# Bwletin y Farchnad HCC

Mehefin 2023

> **Yn dilyn rhyddhau'r tueddiadau o ran defnydd cig eidion gan Kantar, mae data'n dangos bod defnyddwyr yn troi at friwgig eidion wrth i chwyddiant barhau. Bydd Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych ar y tueddiadau siopa hyn yn fanylach, ac yn edrych ar sut y gallai hyn fod yn cael effaith ar brisiau gât fferm.**
>
> **Glesni Phillips - Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**



Yn ystod y 4 wythnos a ddaeth i ben ar 11 o Fehefin, nododd Kantar - arbenigwyr y panel defnyddwyr - fod chwyddiant prisiau groser wedi gostwng am y 3ydd cyfnod yn olynol, ond parhau ar ei **uchaf erioed** o 16.5%. Yn ystod y cyfnod hwn, fe wnaeth gwerthiant groser i'w gludo adref godi bron i 11% flwyddyn ar flwyddyn gan mai prisiau uchel oedd y prif reswm dros y twf.

## PRISIAU GÂT Y FFERM CIG EIDION

Ar yr un pryd â'r prisiau manwerthu uwch, roedd prisiau gât y fferm ar gyfer pwysau marw gwartheg dethol hefyd yn arbennig o uchel. Roedd pris pwysau marw bustych yng Nghymru a Lloegr tua **15% yn uwch** na'r lefelau blwyddyn ynghynt, sef tua £4.87 y cilo adeg y Pasg. Mewn modd tebyg, roedd y pris pwysau marw cyfartalog ar gyfer buchod difa yng Nghymru a Lloegr ar yr adeg hon ryw 13% yn uwch na'r cyfnod cyfatebol y llynedd, sef tua £3.80 y cilo.

Roedd cyflenwad tynn o gig eidion yn cefnogi prisiau gât fferm ar yr adeg hon, tra bod chwyddiant yn un o'r ffactorau y tu ôl i brisiau siopau cynyddol. Mae'r newidiadau hyn wedi chwarae rhan wrth effeithio ar batrymau prynu defnyddwyr yn ystod yr argyfwng costau byw. O ganlyniad, rydym wedi gweld defnyddwyr yn newid rhwng ffynonellau protein, ac yn newid rhwng gwahanol ddarnau o gig mewn ymgais i arbed arian. Yn achos cig eidion, mae **gwerthiant briwgig** wedi bod yn cynyddu.

**Cyfartaledd yn ystod Pasg 2023 o gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach**

**Pris pwysau marw bustych**

**15%**

**yn uwch, tua £4.87 y cilo**

## PERFFORMIAD DARNAU O GIG EIDION MEWN SIOPAU


Wrth edrych ar berfformiad cig eidion mewn siopau ym Mhrydain Fawr yn ystod y 12 wythnos hyd at 14 Mai 2023; mae cyfanswm y gwariant wedi cynyddu bron i 10% ar lefelau blwyddyn ynghynt, sef £556 miliwn wrth i'r pris cyfartalog godi 11% ar y flwyddyn i tua £9.26 y cilo. Er gwaethaf y cynnydd mewn prisiau, parhaodd cyfanswm cyfaint y cig eidion a werthwyd yn **gymharol sefydlog** ar y flwyddyn - 0.8% yn is am y cyfnod o 12 wythnos. Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaeth nodedig yng nghyfran y darnau cig eidion amrywiol sy'n cael eu gwerthu mewn siopau.

Mae gwerthiant cyfaint y **briwgig wedi cynyddu o 1.3%** ar y flwyddyn am y cyfnod o 12 wythnos, tra bod gwerthiant stêcs i lawr 7% ar y flwyddyn. O ganlyniad, roedd gwerthiannau briwgig yn ystod y cyfnod yn **cyfrif am 55%** o gyfanswm cyfaint y cig eidion a werthwyd mewn siopau ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn gynnydd ar y cyfnod cyfatebol y llynedd, ac yn sylweddol uwch na'r 49% a gofnodwyd yn 2021. Mae cyfran y cig eidion sy'n cael ei werthu fel briwgig mewn siopau yn agos at yr uchafbwyntiau a gawsom yn ystod dechrau Covid yn 2020 (sef 57%).

Gall cynyddu cyfaint y carcas cig eidion sy'n cael ei brosesu a'i werthu fel briwgig arwain at anghydbwysedd carcas. Mae prisiau pwysau marw bustych wedi cofnodi 5 wythnos yn olynol o ostyngiadau yn ddiweddar, gyda'r cyfartaledd diweddaraf bellach yn £4.78 y cilo. Mae'n ddigon posibl bod y nifer uchel o gig eidion sy'n cael ei werthu fel briwgig yn rhoi pwysau ar y farchnad ac yn achosi rhywfaint o **ansefydlogrwydd o fewn y gadwyn gyflenwi**.

**Cyfran y darnau cig eidion a werthwyd mewn siopau ym Mhrydain Fawr**

*(yn ôl cyfaint, 12 wythnos hyd at 14 Mai 2023)*




*Ffynhonnell: Kantar*

## EDRYCH YMLAEN

Bydd yr argyfwng costau byw yn parhau i roi **pwysau ar ddefnyddwyr**, ond mae'r gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn a welir mewn pryniannau siopau yn arafu. Felly, mae gobaith y bydd y tywydd barbeciw yn denu defnyddwyr i edrych mwy tuag at gig coch, ond wrth i chwyddiant barhau i fod yn uchel, bydd angen monitro'r effaith ar gydbwysedd carcasau.

# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau — wythnos yn dod i ben 24 Mehefin

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **266.0c/kg**. Roedd hyn:

- - 1.5c ar yr wythnos flaenorol,
- + 21.7c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 69.4c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 196.6c/kg).


Y prisiau pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **478.0c/kg**. Roedd hyn:

- - 3.9c ar yr wythnos flaenorol,
- 36.9c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd y prisiau pwysau marw ar gyfer heffrod yn 477.3c/kg (-0.4c ar yr wythnos), teirw ifanc yn 473.1c/kg (-4.8c), a gwartheg difa ar 377.1c/kg (-4.1c).

### Trwybwn - Mai 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 225,000 pen – gostyngiad o 8% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 172,600 pen - i lawr 6% ar y flwyddyn.
  - ➢ *bustych -8%, heffrod -8%, a theirw ifanc -11%.*
- Cyfartaledd pwysau carcasau gwartheg dethol = 345.5kg (-0.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 44,900 pen - i lawr 7% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Mai '23
74,300 tunnell
-9% b-a-f



## DEFAID

### Prisiau — wythnos yn dod i ben 24 Mehefin

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **321.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 20.6c ar yr wythnos flaenorol,
- + 16.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 72.6c uwchlaw'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 248.7c/kg).


Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£79.70/pen**. Roedd hyn:

- + £1.90 ar yr wythnos flaenorol,
- £19.90 o dan lefelau blwyddyn yn gynharach.


Roedd prisiau ŵyn pwysau marw Prydain Fawr yn 635.2c/kg ar gyfartaledd (-20.5c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Mai 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.0 miliwn pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 902,500 pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas oen cyfartalog = 21.0kg (+0.5kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 134,300 pen – i lawr 4% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant cig defaid y DU
Mai '23
22,700 tunnell
-3% b-a-f



## MOCH


### Prisiau — yr wythnos yn dod i ben 17 Mehefin

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **222.0c/kg**. Roedd hyn:

- Yn debyg i'r wythnos flaenorol,
- + 32.9c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 57.9c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 164.1c/kg).

### Trwybwn – Mai 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 862,900 pen – gostyngiad o 14% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 842,400 pen – i lawr 14% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcas moch heb fagu cyfartalog = 88.6kg (-0.6kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 20,500 pen – i lawr 12% ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant porc y DU
Mai '23
77,500 tunnell
-15% b-a-f

